OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2004 No. 3158

## Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Newid Trefniadau Gweithrediaeth a Threfniadau Amgen) (Cymru) 2004

**Enwi, cychwyn, cymhwyso a dehongli**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Newid Trefniadau Gweithrediaeth a Threfniadau Amgen) (Cymru) 2004 a deuant i rym ar 9 Rhagfyr 2004.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i Gymru ac felly mae cyfeiriadau yn y Rheoliadau hyn at awdurdod lleol yn gyfeiriadau at awdurdod lleol yng Nghymru(**1**).

(3) Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "y Cynulliad" ("*the Assembly*") yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru;

ystyr "Deddf 2000" ("*the 2000 Act*") yw Deddf Llywodraeth Leol 2000; ac

ystyr "trefniadau amgen" ("*alternative arrangements*") yw'r trefniadau a bennir yn Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Amgen) (Cymru) 2001(**2**).

(**1**) *Gweler* adran 48(1) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 i gael y diffiniad o "awdurdod lleol".
(**2**) O.S. 2001/2284 (Cy.173), a ddiwygiwyd gan O.S. 2001/3711, 2002/810, 2003/155, 2003/2676, a 2004/3092.